ACHUBWCH EIN (LLAWN AMSER) GORSAF

Mae'r Aelod Seneddol lleol, Jonathan Edwards a'r Aelod Cynulliad, Rhodri Glyn Thomas yn cefnogi yr ymgyrch sy'n cael ei harwain gan Gynghorwyr lleol Plaid Cymru yn erbyn y cynnig i israddio gorsaf dân Rhydaman o orsaf llawn amser.

Oherwydd toriadau llym llywodraeth Llafur Cymru, mae'r awdurdod tân yn cael ei orfodi i arbed dros £4 miliwn dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r awgrymiadau a gyflwynwyd mis yma i'r Awdurdod tân yn cynnwys cyfres o opsiynau i'r gwasanaeth wneud arbedion. Un o'r opsiynau yma - er nad yw'r penderfyniad wedi ei wneud - yw israddio Gorsaf Dân Rhydaman o orsaf llawn amser i un lle mae dynion tân yn gweithio rhan amser.

Cred Plaid Cymru y bydd hwn yn cael effaith uniongyrchol ar amseroedd ymateb sydd ddim yn dderbyniol.

GWNEUD YR ACHOS DROS ORSAF DÂN LAWN AMSER

- Gorsaf Dân Rhydaman - yn gwasanaethu dros 30,000 o bobl - yr unig orsaf dan lawn amser yn Nyffryn Aman a Tywi.
- Fydd Israddio'r orsaf yn meddwl y bydd yr ardal gyfan - Tua 25% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin - heb wasanaeth llawn amser.
- Mae gorsaf Rhydaman o bwysigrwydd strategol arwyddocaol i'r gwasanaeth tân yn lleol ac yn genedlaethol;
- Mae gan orsaf Rhydaman yr offer technegol mwyaf datblygedig sydd ar gael;
- Mae'r pwmp cyfaint uchel yn yr orsaf yn adnodd ymateb cenedlaethol, a all gael ei alw i fynychu digwyddiad unrhyw le yn y DU fel rhan o Gynllun Hydwythdedd Cenedlaethol llywodraeth y DU.
- Fydd israddio'r orsaf i orsaf rhan amser yn meddwl bydd dynion tân yn gorfod teithio i'r orsaf pan fydd argyfwng yn dod mewn. Fydd hyn yn amlwg yn cynyddu amseroedd ymateb a gall bywydau fod yn y fantol.

YMUNWCH Â'R YMGYRCH:

Mae gwleidyddion lleol Jonathan Edwards AS a Rhodri Glyn Thomas AC - ynghyd â Chynghorwyr Plaid Cymru ar draws Dyffryn Aman - yn gwrthwynebu israddio Gorsaf Dân Rhydaman yn y termau cryfaf posib.

Rydym wedi gwneud ein gwrthwynebiadau yn amlwg i'r prif swyddog tân ac i'r Awdurdod Tân. Rydym hefyd wedi codi ein pryderon gyda Llywodraeth Llafur Cymru sy'n rheoli arian yr awdurdod tân.

Llofnodwch ein deiseb. Ewch ar y wefan islaw ac ychwanegwch eich enw.

www.jonathanedwards.org.uk

Plaid Cymru
Party of Wales

PLAID CYMRU - SEFYLL LAN DROS EIN CYMUNED